

## CYFANSODDIAD CLWB MYNYDDA CYMRU

1. Enw'r gymdeithas yw **Clwb Mynydda Cymru**
2. Dibenion y Clwb yw trafod a lledaenu gwybodaeth am fynydda trwy gyfrwng y Gymraeg; trefnu gweithgareddau a theithiau mynydd; meithrin cysylltiadau rhyng-wladol; hyrwyddo datblygiad mynydda yng Nghymru a gwneud unrhyw beth arall i hyrwyddo'r dibenion uchod, (gan gynnwys dal tir) sy'n ymwneud â mynyddoedd a'u hamgylchedd yn ei ystyr ehangaf. Er mwyn hyrwyddo'r dibenion uchod bydd gan y Clwb yr hawl i drefnu teithiau a gweithgareddau achlysurol eraill megis ogofeuo, crwydro hen fwynfeydd, rafftio dŵr gwyllt, beicio, dringo (dan do ac awyr agored), canwio a chwaraeon dŵr, cyfeiriannu, sgio (gan gynnwys sgi-fynydda), a.y.y.b.
3. Cymraeg yw iaith y Clwb.
  - 4.1. Mae aelodaeth llawn yn agored i unrhyw berson â diddordeb yng ngweithgareddau'r Clwb gan gynnwys dysgwyr go iawn sy'n dymuno arfer y Gymraeg.
  - 4.2. Ni ellir dal y clwb yn gyfrifol am unrhyw anhap a all ddigwydd i aelod tra'n cymryd rhan yn un o weithgareddau'r Clwb.
  - 4.3. Bydd ei riant neu warcheidwad yn gyfrifol am unrhyw berson dan 18 oed sy'n mynychu cyfarfod o'r Clwb neu unrhyw weithgarwch dan nawdd y Clwb.
  - 4.4. Bydd pawb dan 18 oed yn aelodau ieuenctid, heb hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Clwb.
5. Pennir tâl aelodaeth blynyddol gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae blwyddyn aelodaeth y Clwb yn rhedeg o'r cyntaf o Ionawr hyd y dydd olaf o Ragfyr.
  - 6.1. Mae gweithgareddau a gweinyddiad y Clwb o ddydd i ddydd i'w drefnu gan Bwyllgor Gwaith, sef "y pwyllgor". Mae gan y pwyllgor yr hawl i awdurdodi gwario a buddsoddi arian er dibenion y Clwb, a'r hawl i enwebu ymddiriedolwyr i ddal eiddo'r Clwb.
  - 6.2. Aelodau'r pwyllgor yw'r swyddogion, sef Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd (dim rhagor na thri), Trysorydd a phedwar aelod cyffredin. Mae gan y pwyllgor yr hawl i gyfethol hyd at dri aelod ychwanegol.
  - 6.3. Tymor y swyddogion a'r pwyllgor yw Hydref y cyntaf hyd at y degfed ar hugain o Fedi.
  - 6.4. Nid yw tymor y Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd i fod yn fwy na dwy flynedd ar y tro, ond maent yn gymwys i'w hail-ethol ar ôl blwyddyn allan o'r swydd.
  - 6.5. Mae'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor i'w hethol (os oes mwy nag un ymgeisydd) trwy falot gyfrinachol yn y Cyfarfod Cyffredinol. Os daw swydd yn wag, mae gan y pwyllgor hawl i'w llenwi hyd at ddiwedd tymor y pwyllgor.
  - 6.6. Mae'r pwyllgor i gynnal cyfarfod o leiaf fis o flaen y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gyda'r bwriad o roi argymhellion o flaen y cyfarfod hwnnw ac enwebu aelodau ar gyfer y pwyllgor newydd. Rhaid i'r rhestr hon gynnwys o leiaf dri aelod nad oedd ar y pwyllgor yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hysbysu holl aelodau'r Clwb o gynnwys y rhestr o leiaf dair wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- 6.7. Mae hawl gan unrhyw aelod o'r Clwb i enwebu aelodau'r Clwb i fod yn swyddog neu'n aelod o'r pwyllgor. Rhaid i'r enwebiadau hyn gyrraedd yr Ysgrifennydd o leiaf wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rhaid cael caniatad y sawl a enwebir.
- 6.8. Mae'r pwyllgor yn atebol i'r Cyfarfod Cyffredinol am weinyddu'r Clwb yn unol â dibenion y Clwb a phenderfyniadau'r Cyfarfod. Bydd hefyd yn gyfrifol am ddwyn adroddiad a chyfrifon archwiledig o'i flaen yn flynyddol.
- 6.9. Mae gan y pwyllgor hawl i sefydlu is-bwyllgorau i ddibenion trefniadau arbennig. Bydd y swyddogion, yn rhinwedd eu swyddi, yn aelodau ar unrhyw is-bwyllgor o'r fath.
- 6.10. Mae gan y pwyllgor yr hawl i sefydlu cangen o'r Clwb i gynrychioli unrhyw fro arbennig. Hefyd yr hawl i lunio cyfansoddiad ar gyfer canghennau a phennu eu galluoedd yn amodol ar unrhyw welliant a benderfynir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.
- 6.11. Dim ond gan swyddogion y Clwb, neu unrhyw aelod a benodir gan y pwyllgor y mae'r hawl i ddatgan barn yn gyhoeddus yn enw'r Clwb.
7. Mae gan y Clwb yr hawl i ethol Llywydd ac Is-Lywyddion Anrhydeddus. Ni fydd tymor y Llywydd(ion) yn hwy na dwy flynedd ar y tro, ond bydd yn agored i'w ail-ethol ar ôl bwlch o flwyddyn. Enwebir y Llywydd(ion) gan y pwyllgor, a'r enwebiadau i'w cadarnhau neu eu gwrthod gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- 8.1. Mae gan y Pwyllgor yr hawl drwy fwyafrif o ddau allan o dri i wrthod, neu i ddiddymu aelodaeth unrhyw berson os yw ei ymddygiad yn anghyson ag aelodaeth y Clwb mewn unrhyw ffordd.
- 8.2. Mae hawl gan unrhyw aelod a ddiarddelwyd i apelio i banel, i'w enwebu gan Gyfarfod Cyffredinol y Clwb yn erbyn penderfyniad y pwyllgor i'w ddiarddel. Ni all unrhyw aelod o'r pwyllgor a oedd yn bresennol pan ddiarddelwyd yr aelod fod yn aelod o'r panel.
9. Mae archwilydd i'w benodi yn flynyddol gan y Cyfarfod Cyffredinol. Ni ddylai'r archwilydd fod yn aelod o'r pwyllgor.
10. Mae arian y Clwb i'w fancio yn enw'r Clwb ac mae hawl i arwyddo sieciau gan y Trysorydd ynghyd ag unrhyw un Swyddog arall a enwebwyd gan y pwyllgor ar gyfer y gorchwyl hwn.
11. Mae blwyddyn ariannol y Clwb o Ionawr y cyntaf i'r dydd olaf o Ragfyr. Mae aelodaeth unrhyw aelod yn peidio os na fydd wedi ail-ymaelodi cyn diwedd Chwefror. Mae croeso i aelodau newydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Os bydd i unrhyw un ymaelodi o'r newydd rhwng y cyntaf o Hydref a'r dydd olaf o Ragfyr, bydd yn aelod hyd y dydd olaf o Ragfyr y flwyddyn ganlynol.
12. Mae gan unrhyw un sy'n gweithredu (dros y Clwb) ar ran y pwyllgor, hawl i dreuliau a bennir gan y pwyllgor.
- 13.1. Mae Cyfarfod Cyffredinol y Clwb i'w gynnal ym misoedd Hydref neu Dachwedd yn ôl trefniant y pwyllgor. Ynddo fe wneir y gwaith a ganlyn:
  - i. Derbyn cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol fel rhai cywir,
  - ii. Ystyried adroddiad y Pwyllgor ar weithgareddau'r flwyddyn,
  - iii. Ystyried mantolen y flwyddyn flaenorol,
  - iv. Ethol swyddogion,
  - v. Ethol pwyllgor,

- vi. Penodi archwilydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol,
- vii. Ystyried unrhyw fater brys.

- 13.1. Mae'n ofynnol i un o bob pump aelod sydd wedi talu eu haelodaeth fod yn bresennol cyn ei bod yn bosib cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- 14. Mae gan y pwyllgor neu ugain aelod, yr hawl i alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig. Mewn cyfarfod felly, nid oes dim i'w benderfynu ond yr hyn sy'n codi o'r mater a nodwyd ar agenda'r cyfarfod. Mae'n ofynnol i un o bob pump aelod sydd wedi talu eu haelodaeth am y flwyddyn i fod yn bresennol cyn ei bod yn bosib cynnal Cyfarfod Cyffredinol Arbennig
- 15. Mae rhybudd o unrhyw Gyfarfod Cyffredinol i'w yrru i bob aelod o'r Clwb, ynghyd ag agenda dros dair wythnos ymlaen llaw, ond nid yw unrhyw benderfyniad a wneir mewn Cyfarfod Cyffredinol yn ddi-rym oherwydd fod unrhyw aelod heb dderbyn rhybudd
- 16. Mae'r Cadeirydd, neu yn ei absenoldeb, yr is-Gadeirydd i lywyddu mewn Cyfarfod Cyffredinol a phwyllgorau. Yn absenoldeb y ddau, etholir cadeirydd dros dro yn y fan a'r lle. Os bydd pleidleisiau dros neu yn erbyn unrhyw gynigiad yn gyfartal, mae gan y Cadeirydd yr hawl i benderfynu.
- 17.1. Mae hawl gan y Clwb i newid ei gyfansoddiad mewn Cyfarfod Cyffredinol gyda chydysniad dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio, ac yn unol â phenderfyniad a gynhwyswyd yn rhybudd y cyfarfod
- 17.2. Mae gan y Pwyllgor yr hawl i wneud rheolau dros dro ar gyfer gweithgareddau'r Clwb ar yr amod eu bod yn gyson â'r cyfansoddiad, a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol blynyddol nesaf
- 18. Mae modd dirwyn gweithgareddau'r Clwb i ben ar gais y pwyllgor mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig. Rhaid cael cydsyniad dwy ran o dair o'r aelodaeth sy'n bresennol, ac yn pleidleisio.